Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Dyn wedi'i arestio wrth i win a prosecco ffug gwerth tua £500,000 gael eu hatafaelu fel rhan o ymgyrch yr NFCU

Ar 3 Mawrth, cafodd dyn 61 oed ei arestio am gynllwynio i dwyllo, mewn perthynas â mewnforio a dosbarthu gwin a prosecco ffug ac sydd wedi'u camgyfleu. Atafaelwyd 90 paled o win a prosecco gan swyddogion NFCU, ochr yn ochr â'r Heddlu Metropolitan, o dri warws ledled Gogledd Llundain ac Essex. Roedd y paledi yn cynnwys dros 67,000 o boteli gyda gwerth manwerthu amcangyfrifedig o tua £500,000. Rhyddhawyd y dyn yn ddiweddarach o dan ymchwiliad, ac mae ymholiadau'n parhau.

Daeth yr ymgyrch â nifer o bartneriaid ynghyd ar draws asiantaethau gorfodi'r gyfraith, awdurdodau lleol a safonau masnach, gan gynnwys yr Heddlu Metropolitan a'i Uned Troseddau Cyfundrefnol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Llundain, Partneriaeth Gangiau a Thîm Cymdogaethau Mwy Diogel, Awdurdod Lleol a Safonau Masnach Enfield, Cyngor Dosbarth Epping Forest, Safonau Masnach Essex, yn ogystal â Thîm Arolygu Gwin yr ASB.

Nid oes unrhyw arwydd o risg i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon am gynnyrch rydych chi wedi'i brynu, cysylltwch â'ch Safonau Masnach lleol.

> "Mae atafaelu dros 67,000 o boteli o gynnyrch ffug a gwneud arestiad yn anfon neges gref at y rhai sy'n ceisio elwa o dwyllo defnyddwyr: byddwn ni'n gweithredu.
>
> Mae'r ymgyrch hon yn enghraifft glir o'r hyn y gallwn ei gyflawni pan fydd asiantaethau'n cydweithio tuag at yr un nod. Hoffwn ddiolch i bob partner a oedd yn rhan o'r ymgyrch hon am eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad drwyddi draw.
>
> Nid yw twyll bwyd yn drosedd heb ddioddefwyr. Mae'n tanseilio busnesau cyfreithlon ac yn difetha ymddiriedaeth defnyddwyr. Yn yr achos hwn, y pryder yw dilysrwydd ac ansawdd bwyd – mae defnyddwyr yn haeddu gwybod bod yr hyn maen nhw'n ei brynu yn union yr hyn y mae'n honni ei fod. Mae'r NFCU wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau nad oes lle i weithgarwch troseddol yn system fwyd y DU."
>
> **Andrew Quinn, Pennaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd**

Os ydych chi'n amau twyll bwyd, rhowch wybod i'r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar food.gov.uk neu drwy ffonio 0800 028 1180 (0207 276 8787 ar gyfer ffonau symudol a galwadau ffôn o'r tu allan i'r DU).